**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Planning Directorate**

Ein cyf/Our ref: qa10353

James Harland
Rheolwr Cynllunio Strategol a Chymunedau
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
PO Box1
Bae Colwyn
LL28 0LG

18 Rhagfyr 2025

Annwyl James,

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: Cynllun Newydd Cyntaf y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig**
**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015**

Diolch am eich e-bost ar 18 Rhagfyr yn gofyn am gymeradwyaeth i'ch Cytundeb Cyflawni diwygiedig ar gyfer eich Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd yn dilyn cadarnhad drwy benderfyniad y Cyngor ar 18 Rhagfyr. Mae'r llythyr hwn mewn ymateb i gadarnhad ffurfiol y Cytundeb Cyflawni diwygiedig gan y Cyngor. Daw'r cais Cytundeb Cyflawni hwn o ganlyniad i'ch awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r llithriant y cytunwyd arno ym mhroses paratoi'r cynllun, fel y nodir yn y Cytundeb Cyflawni cychwynnol, ar gyfer cynllun newydd sy'n cwmpasu'r cyfnod 2018-2033.

Mae paratoi CDLl yn ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru. Mae bod â chynllun datblygu cyfredol ar waith yn sail i'r holl system gynllunio yng Nghymru ac mae'n ategu ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu a arweinir gan gynlluniau. Mae rheoli prosiectau yn effeithiol a thystiolaeth gyfredol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir yn Nhabl 2.1 (paragraff 2.5) ac Atodiad 5 y Cytundeb Cyflawni diwygiedig. Mae'r amserlen hon a nodir yn y Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn cyd-fynd â'r gofynion yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3).

Prawf cadernid y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn wrth iddo gael ei archwilio yw a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS). Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos ‘cydymffurfiaeth gyffredinol’ â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i baratoi eich cynllun newydd. Mae eich Cytundeb Cyflawni diwygiedig a gyflwynwyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o amseriadau pob cam y CDLl (yn Atodiad 5) gyda dyddiad mabwysiadu dangosol o fis Tachwedd 2027.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflawni yr ydych wedi'i gyflwyno, gallaf **gadarnhau ein bod yn cytuno** i'r amserlen a nodir yn Nhabl 2.1 fel y darperir ar ei chyfer gan Adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Dylech nawr wneud yn siŵr bod y fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliad 10.

Yn gywir,

**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Chief Planner**